



Mike Hedges AC
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd

SeneddCCERAassembly.wales

7 Chwefror 2019

Annwyl Mike,

Hoffwn ddiolch ichi a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig unwaith eto am eich gwaith a'r adroddiad manwl a gyhoeddwyd ar 16 Hydref 2018 o'r enw 'Effaith Brexit ar Bysgodfeydd yng Nghymru'. Yn ogystal â'm llythyr yn ymateb i'r Pwyllgor ar 27 Tachwedd 2018, cytunais i roi diweddariad arall ichi ar bedwar pwnc a gafodd eu trafod yn eich adroddiad.

Argymhelliad 2: Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor o fewn y 12 wythnos nesaf ar drafodaethau mae wedi'u cynnal â Llywodraeth y DU am bolisiau pysgodfeydd yn y dyfodol. Dylai hyn gynnwys trafodaethau am y fframwaith cyffredin arfaethedig ar gyfer rheoli pysgodfeydd, ac unrhyw gynigion ar gyfer mecanwaith rhynglywodraethol i hwyluso cytundeb rhwng Gweinyddiaethau'r DU ar fframweithiau cyffredin, gan gynnwys polisiau pysgodfeydd.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio'n agos iawn gyda swyddogion y DU a swyddogion cyfatebol yn y gwledydd datganoledig ar bolisiau pysgodfeydd ar gyfer y dyfodol. Mae Bil Pysgodfeydd y DU yn gwneud darpariaeth ar gyfer datganiad polisi y cytunir arno ar y cyd a fydd yn sail i elfennau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol y fframwaith. Mae'r Bil yn cael ei drafod yn Senedd y DU a bydd yn dda gennyf roi diweddariad i'r Pwyllgor pan fydd y trafodaethau hyn wedi dod i ben.

Argymhelliad 3: Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn ymgysylltu'n barhaus â chynrychiolwyr o'r holl sector pysgodfeydd. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn o fewn y 12 wythnos nesaf ar y camau y bydd yn eu cymryd i ehangu'r gwaith ymgysylltu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu nifer o grwpiau rhanddeiliaid yn y sector morol a physgodfeydd sy'n cwrdd yn rheolaidd, ac mae wedi gweithio'n agos gyda'r grwpiau hyn. Mae'r grwpiau hyn yn cynrychioli trawstoriad eang o safbwyntiau'r holl randdeiliaid.

Argymhelliad 4: Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn o fewn y 12 wythnos nesaf i nodi a yw'n credu bod ei chapasti ar gyfer polisiâu pysgodfeydd, o ran niferoedd ac arbenigedd staff, yn ddigonol yn y tymor byr. Hefyd dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar unrhyw gynlluniau sydd ganddi i gynyddu ei chapasiti yn y meysydd hyn.

Rydym yn dal i gredu bod gennym ddigon o gapasiti mewn perthynas â pholisiâu pysgodfeydd, ac rydym yn ceisio cynyddu capasiti er mwyn ymdrin â'r gwaith sydd ei angen yn y tymor byr i baratoi ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae hwn yn parhau i fod yn gynllun y gellir ei addasu er mwyn ymateb mewn modd rhagweithiol i'r sefyllfa o ran gadael yr UE wrth iddi ddatblygu, a chan fod y Pwyllgor wedi dangos diddordeb, byddwn yn ysgrifennu os yw'r sefyllfa'n newid.

Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn o fewn 12 wythnos ar ei chynlluniau i gynyddu'r galw domestig am bysgod a physgod cregyn o Gymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod gwerth bwyd môr fel ffynhonnell protein gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Rydym wedi ymrwmo i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol er mwyn ceisio sicrhau y bydd mwy o fwyd môr yn cael ei fwyta yn y gwledydd hyn, ac rydym wedi ariannu prosiect marchnata bwyd môr, yn ardal Elm, drwy Gronfa'r Môr Physgodfeydd Ewrop. Rydym wedi datblygu ac wedi cyfrannu at ryseitiai mewn ymgyrchoedd i hyrwyddo bwyd môr ymhlith defnyddwyr, byddwn yn parhau i hyrwyddo cynhyrchion Cymru mewn digwyddiadau masnach, ac mae'r Clwstwr Bwyd Môr, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, wedi bod yn trafod â manwerthwyr yn y DU.

Rwyf yn croesawu'r ffaith bod eich diddordeb yn y maes hwn yn parhau.

Cofion,



Lesley Griffiths AC/AM

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs